# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

Dydd Llun, 11 Rhagfyr, 2023

13:30- 16:30

Llwyn Brain, Parc Menai, Bangor

| **Aelodau presennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd | Grŵp Llandrillo Menai |
| Dylan Williams (DW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Robin Williams (RW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Owen (GO) | Cyngor Gwynedd |
| Dafydd Gwynne (DG) | Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Euros Jones (EJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emyr Williams (EW) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Ceri Molyneux (CM) | Llywodraeth Cymru |
| Tracey Williams (TW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Andrew Edwards (AE) | Prifysgol Bangor |
| Gerallt Griffiths (GG) | Gwasanaeth Prawf |
| Llinos Davies (LlD) | Heddlu Gogledd Cymru |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Sandra Thomas (ST) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Lydia Orford (LO) | Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

| **Ymddiheuriadau:** | |
|---|---|
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Llinos Medi (LlM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lyndsey Campbell-Williams (LC-W) | Medrwn Môn |
| Gwenan Pritchard (GP) | Cyngor Gwynedd |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Glyn Jones (GJ) | Llywodraeth Cymru |
| Catrin Thomas (CT) | Gwasanaeth Prawf |

**Pwyntiau Gweithredu**

1. **Prosiect Niwbwrch** – Tîm Cefnogi i ddanfon gwahoddiad i Aelodau'r BGC i'r digwyddiad.
2. **Siarter Teithio Llesol -** Tim Cefnogi yn gweithio gyda Tîm Iechyd Cyhoeddus a chydweithwyr rhanbarthol i hwyluso'r dasg.
3. **Prosiect Iaith – Cynllunio Gweithlu Dwyieithog -** bob sefydliad i gyfrannu trwy:
    - Enwebu Rheolwr Adnoddau Dynol neu Rheolwr Recriwtio i fynychu seminar ymchwil mewn lleoliad canolog ym mis Ionawr
    - Cwblhau holiadur ar-lein
    - Darparu dogfennau perthnasol gydag esiamplau o swyddi

4. **Sesiwn Strategol Pwysa Iach -** Aelodau BGC:

- I weithredu ar y camau a nodwyd heddiw o fewn eich sefydliadau
- I adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf. Bydd templed safonol wedi ei ddarparu i hwyluso hyn a bydd Sandra yn cefnogi pob aelod i gwblhau.

**Cofnod o'r drafodaeth**

| Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. | | |
| **2** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol 20/09/23**<br>**Prosiect Niwbwrch** – Rhoddwyd diweddariad gan ST. Nodwyd bod y BGC, sefydliadau 3ydd sector, arweinwyr cymunedol a'r cyhoedd am gael eu dwyn ynghyd i weithio ar faterion penodol sy'n effeithio ar y gymuned yn Niwbwrch ac sy'n cyd-fynd ag amcanion o Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Mae swm o arian wedi ei neilltuo o'r Arian Grant Rhanbarthol i hwyluso'r gwaith fydd yn cael ei arwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Grŵp llywio mewn lle gyda swyddogion o CNC, Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn sy'n trefnu'r sesiwn i fynd i'r afael â'r mater a godwyd amlaf, sef trafnidiaeth a mynediad. Bydd gwahoddiad i Aelodau'r BGC fynychu'r sesiwn.<br>Byddwn yn rhannu'r allbynnau a'r hyn a ddysgwyd gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Cymru. | **Tîm Cefnogi** | **Cgbm** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (*Nodyn ychwanegol* – erbyn hyn mae dyddiad wedi ei bennu i gynnal y sesiwn – 07/03/24 yn Institiwt Prichard-Jones, Niwbwrch)<br><br>**Siarter Teithio Llesol** – Mae'r eitem wedi ei ohirio at gyfarfod yn 2024 er mwyn canolbwyntio ar y Sesiwn Strategol heddiw. Yn y cyfamser, mae'r Tim Cefnogi yn gweithio gyda Tîm Iechyd Cyhoeddus a chydweithwyr rhanbarthol i hwyluso'r dasg.<br><br>**Adroddiad Blynyddol 2022-23 –** Cadarnhawyd ei fod yr adroddiad wedi ei gyhoeddi ac ar gael ar wefan y Bwrdd.<br><br>**Gweithdy Cynllun Llesiant 2023-2028 -** Nodwyd byddai Sesiwn Strategol yn cael ei gynnal fel rhan o'r sesiwn heddiw. | **Tîm Cefnogi** | **cgbm** |
| **3** | **Cynllun Llesiant 2023-2028**<br>**Diweddariad ar y Prosiect Iaith – Cynllunio Gweithlu Dwyieithog**<br>Mae BGC Gwynedd a Môn bellach wedi derbyn grant rhanbarthol i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn ein sefydliadau cyhoeddus sy'n rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru. Mae'r aelodau yn gweld risg a pwysau posib o fewn sefydliadau i ostwng lefel iaith Cymraeg hanfodol swyddi er mwyn ceisio denu ymgeiswyr. Mae hynny yn ei dro yn achosi pryder gwirioneddol o ran ei effaith ar y ddarpariaeth o wasanaethau sy'n addas i'n trigolion ar gyfer y dyfodol. Mae Cwmni Iaith Cyf wedi ei gomisiynu i gynnal yr ymchwil. Ym mis Ionawr byddwn yn galw ar bob sefydliad i gyfrannu trwy:<br>5. Enwebu Rheolwr Adnoddau Dynol neu Rheolwr Recriwtio i fynychu seminar ymchwil mewn lleoliad canolog ym mis Ionawr<br>6. Cwblhau holiadur ar-lein<br>7. Darparu dogfennau perthnasol gydag esiamplau o swyddi | **Pawb** | **Ionawr – Chwefror 2024** |
| **4** | **Cyflwyniad ar Ddull System Gyfan a Pwysa Iach**<br>Cafwyd cyflwyniad ar Fethodoleg Dull System Gyfan a Pwysa Iach gan Dafydd Gwynne a Lydia Orford i baratoi am y Sesiwn Strategol yn eitem 5. (Sleidiau ar gael fel atodiad i'r cofnodion). | | |
| **5** | **Sesiwn Strategol Pwysa Iach**<br>**Rhannwyd Aelodau i grwpiau i drafod:**<br>a. Beth allwch chi/eich sefydliad ei wneud i gyfrannu at y dull system gyfan at bwysau iach?<br>b. Pa sefydliadau sydd yma heddiw fyddai'n hanfodol i chi gyflawni'r gwaith hwn?<br>c. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud ar ôl y sesiwn heddiw ac erb yn pryd?<br>d. Pwy sydd ar goll o'r drafodaeth heddiw sydd, yn eich barn chi, yn hanfodol i weithio ar y dull system gyfan hon at bwysau iach?<br><br>**Esiamplau a ystyriwyd wrth gynnal y trafodaethau:**<br>**Amgylchedd Bwyd**<br>Cynnig bwyd i staff, cleifion, dinasyddion<br>Dewisiadau bwyd ar ein strydoedd mawr; | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fforddiadwyedd a chynaliadwyedd bwyd<br><br>**Amgylchedd Actif:**<br>Opsiynau teithio / dewisiadau / seilwaith /<br>Cyfleoedd i fod yn weithgar yn y gwaith<br><br>**Gweithredu ar bob lefel o'r system**<br>Beth sydd o fewn eich gallu chi /<br>Beth sydd angen ei newid o fewn y system<br><br>**Camau gweithredu:**<br>1. Tim Iechyd Cyhoeddus BIPBC i gynhyrchu cynllun gweithredu a'i rannu ag aelodau<br>2. Aelodau BGC:<br>• I weithredu ar y camau a nodwyd heddiw o fewn eich sefydliadau<br>• I adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf. Bydd templed safonol wedi ei ddarparu i hwyluso hyn a bydd Sandra yn cefnogi pob aelod i gwblhau. | **Pawb** | **Mawrth 2024** |